



Y NEGESYDD

Ionawr 2020

CYFARFODYDD

Dydd Sul, 5 Ionawr:	<i>Oedfa gymun am 10 dan ofal ein gweinidog Dim Ysgol Sul Oedfa'r hwyr am 5:30 dan ofal ein gweinidog</i>
Dydd Sul, 12 Ionawr:	<i>Oedfa am 10 dan ofal ein gweinidog Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid yn ystod oedfa'r bore Cinio Calan – enwau i'r gweinidog erbyn 5 Ionawr Oedfa'r hwyr am 5:30 dan ofal ein gweinidog</i>
Dydd Mercher, 15 Ionawr:	<i>Cyfarfod swyddogion am 7</i>
18-25 Ionawr:	<i>Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol</i>
Dydd Sul, 19 Ionawr:	<i>Oedfa am 10 dan ofal y Parchedig Jill Tomos Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid yn ystod oedfa'r bore Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa Oedfa'r hwyr am 5:30 dan ofal y Parchedig Jill Tomos</i>
Dydd Mawrth, 21 Ionawr	<i>Paned a sgwrs yn y festri 2 – 4</i>
Dydd Mercher, 22 Ionawr	<i>Cyfarfod yr Wythnos Weddi yng Nghaffi Deiniol yng ngofal Emaus a'r Eglwys yng Nghymru am 3:30</i>
Dydd Sul, 26 Ionawr	<i>Oedfa am 10 dan ofal ein gweinidog Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid yn ystod oedfa'r bore Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa Oedfa'r hwyr am 5:30 dan ofal ein gweinidog</i>

DYLETSWYDDAU

Llywydd y mis: Gareth Jones

Cymun: Gareth Jones
Gareth Ffowc Roberts
Dilwen Lloyd Jones
Bernard Jones
Wrth y drws: Richard Gwynedd
Dylan Owen

BLODAU

5 Ionawr : Branwen Jarvis
12 Ionawr : Branwen Jarvis
19 Ionawr : Lowri Elis
26 Ionawr : Lowri Elis

Gair gan y Gweinidog

Dechrau Degawd Newydd

Mae'r hanes dramatig a adroddir yn Llyfr Nehemeia yn dechrau ar adeg dywyll iawn yn hanes pobl Dduw, wrth iddynt wynebu argyfwng cenedlaethol a chrefyddol. Yn dilyn cwmp Jerwsalem yn 587 CC, mae hufen y genedl Iddewig wedi eu cymryd yn gaeth gan y Babiloniaid.

Yn 539 CC, mae Persia yn goresgyn ymerodraeth Babilon a nhw bellach yw meistri cenedl fach yr Iddewon. Tua 445 CC yw hi, ac mae Nehemeia, un o'r alltudion, yn gweithio fel bwiler i frenin Persia yn Shwshan, pan ddaw'r newyddion ato fod Jerwsalem wedi dioddef ymosodiad pellach.

Mae pobl Dduw yn ymateb gyda theimladau o dristwch, o anobaith a hyd yn oed sinigiaeth – 'oes 'na bwynt i ni drïo cario mlaen wyneb yn wyneb â'r fath argyfwng?' Mae 'na demtasiwn i ninnau ymateb felly hefyd.

Ond dydy llyfr Nehemeia ddim yn un diobaith a negyddol – i'r gwrthwyneb. Er ei fod yn dechrau gyda golwg onest ar broblemau'r dydd, mae hefyd yn cynnig gobaith. Mae Nehemeia yn mynd yn ôl i Jerusalem ac yn galw pobl Dduw at ei gilydd a'u hannog i ddechrau wrth eu traed – 'Awn ati i adeiladu!'.

Ar ddechrau degawd newydd a blwyddyn newydd fel hyn, rydym am gynnal sgwrs fawr yn Emaus am ba fath o eglwys mae Duw am i ni fod. Gadewch i ni, felly, fel Nehemeia a'i gydwladyr, ymrwmo i gamu ymlaen mewn ffydd a mynd ati i adeiladu.

Pob bendith dros y Nadolig ac yn y Flwyddyn Newydd i holl aelodau a ffrindiau Emaus gan ddiolch am eich cwmni a'ch cefnogaeth i Lloyd a minnau yn ystod 2019.



gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
(01286) 660666

Dylid gyrru eitemau ar gyfer rhifyn Chwefror y Negesydd at Eleri Jones
eleri.jones30@btinternet.com (01248 364665) erbyn 19 Ionawr, fan bellaf